



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2022 Rhif 939 (Cy. 203)

2022 No. 939 (W. 203)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd
(Diwygio Darpariaethau
Trosiannol) (Cymru) 2022

The Food Information (Amendment
of Transitional Provisions) (Wales)
Regulations 2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio offerynnau statudol a chyfraith yr UE a ddargedwir mewn perthynas â labelu bwyd yng Nghymru. Mae'r diwygiadau yn estyn trefniadau trosiannol blaenorol, a oedd i fod i ddod i ben ar ddiwedd mis Medi 2022, fel eu bod yn parhau i fod yn gymwys hyd at ddiwedd 2023.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations amend statutory instruments and retained EU law in relation to food labelling in Wales. The amendments extend previous transitional arrangements, which were due to expire at the end of September 2022, so that they continue to apply until the end of 2023.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2022 Rhif 939 (Cy. 203)

2022 No. 939 (W. 203)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

AGRICULTURE, WALES

BWYD, CYMRU

FOOD, WALES

**Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd
(Diwygio Darpariaethau
Trosiannol) (Cymru) 2022**

**The Food Information (Amendment
of Transitional Provisions) (Wales)
Regulations 2022**

Gwnaed 5 Medi 2022
Gosodwyd gerbron Senedd
Cymru 7 Medi 2022
Yn dod i rym 30 Medi 2022

Made 5 September 2022
Laid before Senedd Cymru 7 September 2022
Coming into force 30 September 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(e) ac 48(1)(c) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 16(1)(e) and 48(1)(c) of the Food Safety Act 1990(1), make the following Regulations.

Yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(2), mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

In accordance with section 48(4A) of the Food Safety Act 1990(2), the Welsh Ministers have had regard to relevant advice given by the Food Standards Agency.

- (1) 1990 p. 16. Mae swyddogaethau'r "Secretary of State" o dan Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 yn arferadwy gan Weinidogion Cymru (o ran Cymru), yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi. *Gweler* diwygiadau i adrannau 16 ac 48 o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990 gan adran 40 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) a pharagraffau 7 ac 8 o Atodlen 5 iddi. Mae'r pwerau yn Neddf Diogelwch Bwyd 1990, o'u darllen ynghyd â pharagraff 5 o Atodlen 8 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16), yn caniatáu gwneud addasiadau i fân ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir fel y diffinnir "retained direct minor EU legislation" yn adran 7(6) o'r Ddeddf. Diffinnir "modify" yn adran 20(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ac mae'n cynnwys "amend, repeal or revoke".
- (2) Mewnosodwyd is-adran (4A) gan baragraffau 7 ac 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999.

- (1) 1990 c. 16. Functions of the "Secretary of State" under the Food Safety Act 1990 are exercisable by the Welsh Ministers (in relation to Wales), by virtue of the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32). *See* amendments to sections 16 and 48 of the Food Safety Act 1990 by section 40 and paragraphs 7 and 8 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999 (c. 28). The powers in the Food Safety Act 1990, when read with paragraph 5 of Schedule 8 to the European Union (Withdrawal) Act 2018 (c. 16), allow for modifications to be made to retained direct minor EU legislation as defined in section 7(6) of the Act. "Modify" is defined in section 20(1) of the European Union (Withdrawal) Act 2018 and includes "amend, repeal or revoke".
- (2) Subsection (4A) was inserted by paragraphs 7 and 21 of Schedule 5 to the Food Standards Act 1999.

Cynhaliwyd ymgynghoriad fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(1).

Enwi, cychwyn, cymhwyso a rychwant

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Diwygio Darpariaethau Trosiannol) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 30 Medi 2022.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn rychwantu Cymru a Lloegr.

Diwygio Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006

2. Yn rheoliad 17 (tramgwyddau a chosbau) o Reoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) 2006(2), ym mharagraff (9)(b)(ii), yn lle "diwedd 30 Medi 2022" rhodder "1 Ionawr 2024".

Diwygio Rheoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007

3. Yn rheoliad 12 (darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Deunyddiau Bwyd sydd wedi'u Rhewi'n Gyflym (Cymru) 2007(3), yn is-baragraff (a) yn lle "chyn diwedd 30 Medi 2022" rhodder "chyn 1 Ionawr 2024".

Diwygio Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009

4.—(1) Mae Rheoliadau Marchnata Cynnyrch Garddwriaethol Ffres (Cymru) 2009(4) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 23 (darpariaethau trosiannol: ymadael â'r UE)—

(a) ym mharagraff (1)(a), yn lle "diwedd y cyfnod o 21 o fisoedd sy'n dechrau ar y diwrnod y mae diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn digwydd" rhodder "1 Ionawr 2024"; a

There has been consultation as required by Article 9 of Regulation (EC) No 178/2002 of the European Parliament and of the Council laying down the general principles and requirements of food law, establishing the European Food Safety Authority and laying down procedures in matters of food safety(1).

Title, commencement, application and extent

1.—(1) The title of these Regulations is the Food Information (Amendment of Transitional Provisions) (Wales) Regulations 2022.

(2) These Regulations come into force on 30 September 2022.

(3) These Regulations apply in relation to Wales and extend to England and Wales.

Amendment of the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006

2. In regulation 17 (offences and penalties) of the Food Hygiene (Wales) Regulations 2006(2), in paragraph (9)(b)(ii), for "the end of 30 September 2022" substitute "1 January 2024".

Amendment of the Quick-frozen Foodstuffs (Wales) Regulations 2007

3. In regulation 12 (transitional provision: withdrawal from the EU) of the Quick-frozen Foodstuffs (Wales) Regulations 2007(3), in subparagraph (a) for "before the end of 30 September 2022" substitute "before 1 January 2024".

Amendment of the Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009

4.—(1) The Marketing of Fresh Horticultural Produce (Wales) Regulations 2009(4) are amended as follows.

(2) In regulation 23 (transitional provisions: withdrawal from the EU)—

(a) in paragraph (1)(a), for "the end of the period of 21 months beginning on the day on which IP completion day falls" substitute "1 January 2024"; and

(1) EUR 2002/178.

(2) O.S. 2006/31 (Cy. 5), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).

(3) O.S. 2007/389 (Cy. 40), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).

(4) O.S. 2009/1551 (Cy. 151), a ddiwygiwyd gan O.S. 2019/1376 (Cy. 242). Daeth O.S. 2019/1376 (Cy. 242) i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ac fe'i diwygiwyd cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1308.

(1) EUR 2002/178.

(2) S.I. 2006/31 (W. 5), amended by S.I. 2021/371 (W. 114).

(3) S.I. 2007/389 (W. 40), amended by S.I. 2021/371. (W. 114).

(4) S.I. 2009/1551 (W. 151), amended by S.I. 2019/1376 (W. 242). S.I. 2019/1376 (W. 242) came into force on IP completion day by virtue of paragraph 1(1) of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 and was amended before it came into force by S.I. 2020/1308.

- (b) ym mharagraff (2)(a), yn lle “diwedd y cyfnod o 21 o fisoedd sy’n dechrau ar y diwrnod y mae diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu yn digwydd” rhodder “1 Ionawr 2024”.

Diwygio Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011

5.—(1) Mae Rheoliadau Labelu Cig Eidion a Chig Llo (Cymru) 2011(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 4 (tramgwyddau o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd), yn lle paragraff 4 rhodder—

“(4) Nid yw paragraffau (1)(a)(vi) nac (1)(b)(ii) yn gymys—

- (a) os yw’r mater sy’n ffurfio’r toriad honedig yn ymwneud â chynnyrch a osodwyd ar y farchnad cyn 1 Ionawr 2024; a
- (b) pe na bai’r mater sy’n ffurfio’r toriad honedig wedi ffurfio toriad—
- (i) yn achos paragraff (1)(a)(vi), o Erthygl 15 o Reoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a’r Cyngor fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu; neu
- (ii) yn achos paragraff (1)(b)(ii), o Erthygl 2(2)(b) o Reoliad (EC) Rhif 1825/2000 Senedd Ewrop a’r Cyngor fel yr oedd y Rheoliad hwnnw yn cael effaith yng nghyfraith yr UE yn union cyn diwrnod cwblhau’r cyfnod gweithredu.”.

Diwygio Rheoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru) 2013

6. Yn rheoliad 22 (darpariaeth drosiannol: ymadael â’r UE) o Reoliadau Ychwanegion, Cyflasynnau, Ensymau a Thoddyddion Echdynnu Bwyd (Cymru)

- (b) in paragraph (2)(a), for “the end of the period of 21 months beginning on the day on which IP completion day falls” substitute “1 January 2024”.

Amendment of the Beef and Veal Labelling (Wales) Regulations 2011

5.—(1) The Beef and Veal Labelling (Wales) Regulations 2011(1) are amended as follows.

(2) In regulation 4 (offences under European legislation), for paragraph 4 substitute—

“(4) Paragraphs (1)(a)(vi) and (1)(b)(ii) do not apply if the matter constituting the alleged contravention—

- (a) relates to a product that was placed on the market before 1 January 2024, and
- (b) would not have constituted a contravention—
- (i) in the case of paragraph (1)(a)(vi), of Article 15 of Regulation (EC) No 1760/2000 of the European Parliament and of the Council as that Regulation had effect in EU law immediately before IP completion day; or
- (ii) in the case of paragraph (1)(b)(ii), of Article 2(2)(b) of Regulation (EC) No 1825/2000 of the European Parliament and of the Council as that Regulation had effect in EU law immediately before IP completion day.”.

Amendment of the Food Additives, Flavourings, Enzymes and Extraction Solvents (Wales) Regulations 2013

6. In regulation 22 (transitional provision: withdrawal from the EU) of the Food Additives, Flavourings, Enzymes and Extraction Solvents

(1) O.S. 2011/991 (Cy. 145); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2013/3270 (Cy. 320), O.S. 2018/1188 (Cy. 242) ac O.S. 2019/732 (Cy. 137). Daeth O.S. 2019/732 (Cy. 137) i rym ar ddiwmod cwblhau’r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020.

(1) S.I. 2011/991 (W. 145); relevant amending instruments are S.I. 2013/3270 (W. 320), S.I. 2018/1188 (W. 242) and S.I. 2019/732 (W. 137). S.I. 2019/732 (W. 137) came into force on IP completion day by virtue of paragraph 1(1) of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020.

2013(1), ym mharagraff (1)(a) yn lle “ar neu cyn 30 Medi 2022” rhodder “cyn 1 Ionawr 2024”.

Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014

7. Yn rheoliad 15 (darpariaethau trosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(2), ym mharagraff (1)(a), yn lle “ar 30 Medi 2022 neu cyn hynny” rhodder “cyn 1 Ionawr 2024”.

Diwygio Rheoliadau Mêl (Cymru) 2015

8. Yn rheoliad 23 (darpariaethau trosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Mêl (Cymru) 2015(3), ym mharagraff (2)(a) yn lle “ar neu cyn 30 Medi 2022” rhodder “cyn 1 Ionawr 2024”.

Diwygio Rheoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015

9. Yn rheoliad 7 (darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Gwlad Tarddiad Cigoedd Penodol (Cymru) 2015(4), ym mharagraff (2)(a) yn lle “ar 30 Medi 2022 neu cyn hynny” rhodder “cyn 1 Ionawr 2024”.

Diwygio Rheoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016

10. Yn rheoliad 10 (darpariaeth drosiannol: ymadael â'r UE) o Reoliadau Caseinau a Chaseinadau (Cymru) 2016(5), ym mharagraff (1)(a), yn lle “ar neu cyn 30 Medi 2022” rhodder “cyn 1 Ionawr 2024”.

Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000

11. Yn Erthygl 2 (labelu pan na fo gwybodaeth ar gael) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1825/2000 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EC) Rhif 1760/2000 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran

(Wales) Regulations 2013(1), in paragraph (1)(a) for “on or before 30 September 2022” substitute “before 1 January 2024”.

Amendment of the Food Information (Wales) Regulations 2014

7. In regulation 15 (transitional provisions: withdrawal from the EU) of the Food Information (Wales) Regulations 2014(2), in paragraph (1)(a), for “on or before 30 September 2022” substitute “before 1 January 2024”.

Amendment of the Honey (Wales) Regulations 2015

8. In regulation 23 (transitional provisions: withdrawal from the EU) of the Honey (Wales) Regulations 2015(3), in paragraph (2)(a) for “on or before 30 September 2022” substitute “before 1 January 2024”.

Amendment of the Country of Origin of Certain Meats (Wales) Regulations 2015

9. In regulation 7 (transitional provision: withdrawal from the EU) of the Country of Origin of Certain Meats (Wales) Regulations 2015(4), in paragraph (2)(a) for “on or before 30 September 2022” substitute “before 1 January 2024”.

Amendment of the Caseins and Caseinates (Wales) Regulations 2016

10. In regulation 10 (transitional provision: withdrawal from the EU) of the Caseins and Caseinates (Wales) Regulations 2016(5), in paragraph (1)(a), for “on or before 30 September 2022” substitute “before 1 January 2024”.

Amendment of Commission Regulation (EC) No 1825/2000

11. In Article 2 (labelling where information is not available) of Commission Regulation (EC) No 1825/2000 laying down detailed rules for the application of Regulation (EC) No 1760/2000 of the European Parliament and of the Council as regards the

(1) O.S. 2013/2591 (Cy. 255), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).
(2) O.S. 2014/2303 (Cy. 227), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/911 (Cy. 207).
(3) O.S. 2015/1507 (Cy. 174), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).
(4) O.S. 2015/1519 (Cy. 177), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/911 (Cy. 207).
(5) O.S. 2016/1130 (Cy. 270), a ddiwygiwyd gan O.S. 2021/371 (Cy. 114).

(1) S.I. 2013/2591 (W. 255), amended by S.I. 2021/371 (W. 114).
(2) S.I. 2014/2303 (W. 227), amended by S.I. 2021/911 (W. 207).
(3) S.I. 2015/1507 (W. 174), amended by S.I. 2021/371 (W. 114).
(4) S.I. 2015/1519 (W. 177), amended by S.I. 2021/911 (W. 207).
(5) S.I. 2016/1130 (W. 270), amended by S.I. 2021/371 (W. 114).

labelu cig eidion a chynhyrchion cig eidion(1), ym mharagraffau 3 a 4, yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

Diwygio Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008

12. Yn Erthygl 30 (wyau a fewnforir) o Reoliad y Comisiwn (EC) Rhif 589/2008 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 o ran safonau marchnata ar gyfer wyau(2), ym mharagraff 3, yn lle'r geiriau o "for a period" hyd at "falls" rhodder "for the period beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011

13.—(1) Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 543/2011 sy'n gosod rheolau manwl ar gyfer cymhwyso Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1234/2007 mewn perthynas â'r sectorau ffrwythau a llysiau a ffrwythau a llysiau wedi eu prosesu(3) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Erthygl 7 (cymysgeddau), ym mharagraff 4(b), yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

(3) Yn Atodiad 1 (marchnata)—

(a) yn Rhan A (safonau marchnata cyffredinol), ym mhwynt 4(A) (adnabod), yn yr ail fewnoliad yn yr ail baragraff, yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023"; a

labelling of beef and beef products(1), in paragraphs 3 and 4, for the words from "of 21" to "falls" substitute "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

Amendment of Commission Regulation (EC) No 589/2008

12. In Article 30 (imported eggs) of Commission Regulation (EC) No 589/2008 laying down detailed rules for implementing Council Regulation (EC) No 1234/2007 as regards marketing standards for eggs(2), in paragraph 3, for the words from "for a period" to "falls" substitute "for the period beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

Amendment of Commission Implementing Regulation (EU) No 543/2011

13.—(1) Commission Implementing Regulation (EU) No 543/2011 laying down detailed rules for the application of Council Regulation (EC) No 1234/2007 in respect of the fruit and vegetables and processed fruit and vegetables sectors(3) is amended as follows.

(2) In Article 7 (mixes), in paragraph 4(b), for the words from "of 21" to "falls" substitute "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

(3) In Annex 1 (marketing)—

(a) in Part A (general marketing standards), in point 4(A) (identification), in the second indent of the second paragraph, for the words from "of 21" to "falls" substitute "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023"; and

(1) EUR 2000/1825, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/822. Daeth O.S. 2019/822 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ac fe'i diwygiwyd cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1453 ac O.S. 2020/1481.

(2) EUR 2008/589, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/1402 ac O.S. 2019/1422. Daeth O.S. 2019/1402 ac O.S. 2019/1422 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Diwygiwyd O.S. 2019/1402 cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1445 ac O.S. 2020/1452. Diwygiwyd O.S. 2019/1422 cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1445 ac O.S. 2020/1453.

(3) EUR 2011/543, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/822, O.S. 2019/828, O.S. 2021/756, O.S. 2021/1396 ac O.S. 2022/608. Daeth O.S. 2019/822 ac O.S. 2019/828 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020. Diwygiwyd O.S. 2019/822 cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2019/1405 ac O.S. 2020/1453, a gwnaeth yr olaf o'r rhain hefyd ddiwygio O.S. 2019/1405 cyn iddo ddod i rym. Diwygiwyd O.S. 2020/828 cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1452.

(1) EUR 2000/1825, as amended by S.I. 2019/822. S.I. 2019/822 came into force on IP completion day by virtue of paragraph 1(1) of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 and was amended before it came into force by S.I. 2020/1453 and S.I. 2020/1481.

(2) EUR 2008/589, as amended by S.I. 2019/1402 and S.I. 2019/1422. S.I. 2019/1402 and S.I. 2019/1422 came into force on IP completion day by virtue of paragraph 1(1) of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020. S.I. 2019/1402 was amended before it came into force by S.I. 2020/1445 and S.I. 2020/1452. S.I. 2019/1422 was amended before it came into force by S.I. 2020/1445 and S.I. 2020/1453.

(3) EUR 2011/543, as amended by S.I. 2019/822, S.I. 2019/828, S.I. 2021/756, S.I. 2021/1396 and S.I. 2022/608. S.I. 2019/822 and S.I. 2019/828 came into force on IP completion day by virtue of paragraph 1(1) of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020. S.I. 2019/822 was amended before it came into force by S.I. 2019/1405 and S.I. 2020/1453, the latter of which also amended S.I. 2019/1405 before it came into force. S.I. 2020/828 was amended before it came into force by S.I. 2020/1452.

(b) yn Rhan B (safonau marchnata penodol), ym mhob un o Rannau 1 i 10, ym mhwynt 6(A) (adnabod), yn yr ail fewnoliad yn yr ail baragraff, yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

(b) in Part B (specific marketing standards), in each of Parts 1 to 10, in point 6(A) (identification), in the second indent of the second paragraph, for the words from "of 21" to "falls" substitute "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 29/2012

14. Yn Erthygl 2 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 29/2012 ar safonau marchnata ar gyfer olew olewydd (codeiddio)(1), ym mhwynt (b) o'r trydydd paragraff, yn lle'r geiriau o "of 21" hyd at "falls" rhodder "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

Amendment of Commission Implementing Regulation (EU) No 29/2012

14. In Article 2 of Commission Implementing Regulation (EU) No 29/2012 on marketing standards for olive oil (codification)(1), in point (b) of the third paragraph, for the words from "of 21" to "falls" substitute "beginning with 30 September 2022 and ending with 31 December 2023".

Diwygio Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2019/33

15. Yn Erthygl 46 (dynodiad y potelwr, y cynhyrchydd, y mewnoforiwr a'r gwerthwr) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2019/33 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran ceisiadau am warchod dynodiadau tarddiad, dynodiadau daeryddol a thermau traddodiadol yn y sector gwin, y weithdrefn ar gyfer gwrthwynebu, cyfyngiadau ar ddefnydd, diwygiadau i fanylebau cynnyrch, canslo gwarchodaeth, a labelu a chyflwyniad(2), ym mharagraff 1, ym mhwyntiau (a) a (d), yn lle "30 September 2022" rhodder "31 December 2023".

Amendment of Commission Delegated Regulation (EU) 2019/33

15. In Article 46 (indication of the bottler, producer, importer and vendor) of Commission Delegated Regulation (EU) 2019/33 supplementing Regulation (EU) No 1308/2013 of the European Parliament and of the Council as regards applications for protection of designations of origin, geographical indications and traditional terms in the wine sector, the objection procedure, restrictions of use, amendments to product specifications, cancellation of protection, and labelling and presentation(2), in paragraph 1, in points (a) and (d), for "30 September 2022" substitute "31 December 2023".

Lynne Neagle

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, un o Weinidogion Cymru
5 Medi 2022

Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing, one of the Welsh Ministers
5 September 2022

© Hawlfraint y Goron 2022

© Crown copyright 2022

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Jeff James, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Jeff James, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

(1) EUR 2012/29, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2019/1422. Daeth O.S. 2019/1422 i rym ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu yn rhinwedd paragraff 1(1) o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 ac fe'i diwygiwyd cyn iddo ddod i rym gan O.S. 2020/1453.
(2) EUR 2019/33, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2020/1637, O.S. 2020/1661 ac O.S. 2021/632.

(1) EUR 2012/29, as amended by S.I. 2019/1422. S.I. 2019/1422 came into force on IP completion day by virtue of paragraph 1(1) of Schedule 5 to the European Union (Withdrawal Agreement) Act 2020 and was amended before it came into force by S.I. 2020/1453.
(2) EUR 2019/33, as amended by S.I. 2020/1637, S.I. 2020/1661 and S.I. 2021/632.

£6.90

<http://www.legislation.gov.uk/id/wsi/2022/939>

ISBN 978-0-348-39359-0



9 780348 393590